# Crynodeb o Fil
## Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

Awst 2012

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1784

# Crynodeb o Fil
Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
(Wales) Bill

Awst 2012

Owain Roberts

Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... **1**

**2. Llinell amser** ..... **3**

2.1. Archwilio a blynyddoedd cynnar datganoli (1999 - 2005) ..... 3
2.2. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ..... 4
2.3. Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ..... 5
2.4. Datblygiadau yn Swyddfa Archwilio Cymru ers 2007 ..... 6
2.5. Datblygiadau yn Lloegr ers 2007 ..... 8
2.6. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft ..... 10

**3. Y Bil** ..... **11**

3.1. Amcanion polisi ..... 11
3.2. Darpariaethau ..... 12
3.3. Gwahaniaethau rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd a'r Bil drafft ..... 13

**4. Goblygiadau ariannol** ..... **15**

4.1. Costau trosiannol ..... 15
4.2. Costau blynyddol ar gyfartaledd ..... 15
4.3. Costau cyfredol ..... 15

**5. Ymatebion** ..... **17**

# Crynodeb o'r Bil - *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad y'i cyflwynwyd:** 9 Gorffennaf 2012

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1:** Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 23 Tachwedd 2012

Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) sy'n goruchwylio gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac mae'n rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb a phriodoldeb tua £14 biliwn o wariant cyhoeddus. Mae'r Archwilydd yn gyfrifol am archwilio holl sectorau'r Llywodraeth yng Nghymru, ac eithrio sectorau nad ydynt wedi'u datganoli y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Archwilydd hefyd yn penodi archwilwyr allanol sy'n archwilio cyrff llywodraeth leol Cymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau'r gwasanaeth prawf ac awdurdodau'r gwasanaeth tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned yng Nghymru. Yn ogystal â gwneud gwaith archwilio ariannol, mae'r Archwilydd hefyd yn archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli a gwario arian, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Archwilydd a'r staff a benodir ganddo yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Mae swydd yr Archwilydd yn gorfforaeth un person - mae'r holl swyddogaethau yn nwylo deiliad y swydd, gan gynnwys y pwerau i benodi staff, dal eiddo a chytuno ar gontractau. Nid oes gan y Swyddfa unrhyw statws cyfreithiol sydd ar wahân i statws yr Archwilydd. Cyflwynir *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*[1] ("y Bil") ar ôl cyfres o ddatblygiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd wedi niweidio enw da yr Archwilydd a'r Swyddfa, yn ogystal â niweidio hyder y Cynulliad yng nghryfder trefniadau llywodraethu'r swyddfa honno ac felly'r strwythurau archwilio cyfredol yng Nghymru. Cred Llywodraeth Cymru y bydd y Bil hwn yn mynd i'r afael â'r ffaith bod "angen mynd ati ar fyrder i sefydlu trefniadau a fydd yn adennill hyder y cyhoedd ac, yn hanfodol bwysig, y cyrff a archwilir, yng ngweithgarwch ACC a SAC".[2]

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu i'r trefniadau newydd hyn ddod i rym erbyn 1 Ebrill 2014, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad i'r Bil.[3] Mae'r papur hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndirol hanesyddol am y gyfundrefn archwilio yng Nghymru ers

---

[1] ***Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*** [fel y'i cyflwynwyd]
[2] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Esboniadol: Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)***, Gorffennaf 2012, paragraff 19
[3] Ibid, paragraff 35

datganoli; yn rhoi trosolwg o brif amcanion a darpariaethau'r Bil; ac yn crynhoi rhai ymatebion cychwynnol.

## 2. Llinell amser[4]

Cyn sefydlu'r Cynulliad, cyfrifoldeb y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol oedd archwilio cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Cefnogwyd yr unigolyn hwn yn ei waith gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Sylfaen gyfreithiol hyn oedd *Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983*,[5] a sefydlodd y Swyddfa o dan arweinyddiaeth y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, sy'n Swyddog o Dŷ'r Cyffredin (mae'r swydd hon wedi bodoli ers 1866 a, chyn Deddf 1983, roedd y staff a oedd yn cynorthwyo'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn weision sifil - Adran y Trysorlys ac Archwilio). Prif effaith Deddf 1983 oedd trosglwyddo staff yr adran honno o'r Gwasanaeth Sifil i gyflogaeth y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a diogelu'n gyfreithiol gallu'r unigolyn hwn i gynnal archwiliadau gwerth am arian. Hefyd, creodd y Ddeddf honno Gomisiwn Cyfrifon Cyhoeddus statudol a oedd yn cynnwys nifer o Aelodau Seneddol i gymeradwyo cyllid y Swyddfa, monitro ei gwariant a phenodi ei harchwilydd.

### *2.1. Archwilio a blynyddoedd cynnar datganoli (1999 - 2005)*

Gwnaeth *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* ("Deddf 1998"), a sefydlodd y Cynulliad ym **mis Mai 1999**, hefyd sefydlu swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru ("ACC"). Cafodd Archwilydd ei benodi gan y Frenhines ar ôl iddo gael ei enwebu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a thalwyd amdano gan y Cynulliad (fel yr oedd ar y pryd). Roedd sefydlu'r swydd honno fel "corfforaeth un person" yn sicrhau dilyniant awtomatig wrth gyflawni swyddogaethau'r swydd pan fyddai deiliad y swydd yn newid.

Roedd yr Archwilydd yn annibynnol ar y Cynulliad a chyrff eraill a oedd yn cael eu harchwilio. Roedd yn archwilio cyfrifon y Cynulliad, y cyrff yr oedd yn eu noddi a chyrff perthnasol, ac roedd hefyd yn cynnal archwiliadau gwerth am arian. Ystyriwyd adroddiadau'r Archwilydd gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad (rhagflaenydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus cyfredol y Cynulliad), ac fe'u defnyddiwyd i holi swyddogion cyfrifyddu. Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio ei argymhellion ei hun o ran gwella rheolaeth a llywodraethu ariannol. Roedd disgwyl i'r Archwilydd ystyried barn y Pwyllgor Archwilio wrth iddo gynllunio ei flaenraglen o archwiliadau gwerth am arian.

Roedd gan y Pwyllgor Archwilio hefyd y rôl o oruchwylio cyllid yr Archwilydd. Roedd ganddo, felly, rôl ddeublyg anarferol yn debyg i rôl Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin a'r Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus.

---

[4] Mae rhagor o wybodaeth gefndirol hanesyddol am y gyfundrefn archwilio yng Nghymru ar gael yn y papur ymchwil ***Y Gyfundrefn Archwilio yng Nghymru rhwng 1999 a 2011*** a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011 gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.

[5] ***Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983*** (Saesneg yn unig) (Pennod 44)

Cyn i *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004* ddod i rym[6] ar 31 Mawrth 2005 (gweler paragraff 2.2 isod), nid oedd yr Archwilydd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru - roedd y rhain yn parhau i fod o dan awdurdodaeth y Comisiwn Archwilio.

Syr John Bourn oedd yr unigolyn cyntaf i gael ei benodi'n Archwilydd ar **1 Mehefin 1999**. Ef oedd hefyd Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU ar y pryd, ac fe'i cefnogwyd gan staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghaerdydd, a fu'n darparu gwasanaethau proffesiynol, gweinyddol a thechnegol. Ar ôl datganoli, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol oedd yn parhau i fod yn gyfrifol am archwilio cyrff Llywodraeth y DU nad ydynt wedi'u datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru, ac ef sydd â'r cyfrifoldeb hwn o hyd.

## *2.2. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*

Ym mis **Ebrill 2003,** bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ynghylch *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)* drafft a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ac un o Bwyllgorau'r Cynulliad. Amlinellodd Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, y rhesymeg y tu ôl i'r ddeddfwriaeth hon mewn datganiad i Bwyllgor y Cynulliad.

> The Public Audit (Wales) Bill is very much a logical progression of the devolutionary process. Since 1999 the Wales Office and the National Assembly have developed an agenda for the formulation and delivery of objectives and policies based on partnership with a whole range of public sector bodies. Many policy initiatives demonstrate a distinctive way of working that involve the Assembly; Assembly sponsored public bodies; the voluntary sector; and local government in active delivery of the objectives.
>
> As the boundaries between policy implementation break down it is reasonable that the current division of responsibilities for public audit, in terms of safeguarding the taxpayers interest and assisting in achieving the best value for money possible should also be removed. A single public audit body for Wales will achieve this purpose. As the Committee will know Scotland and Northern Ireland have both adopted this approach.[7]

Rhoddodd *Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004* ,[8]dilynol a ddaeth i rym ar **1 Ebrill 2005**, nifer o swyddogaethau newydd i'r Archwilydd. Effaith mwyaf arwyddocaol y swyddogaethau hyn yw mai'r Archwilydd yw archwilydd statudol holl gyrff y GIG yng Nghymru bellach, ef sy'n gyfrifol am benodi a goruchwylio archwilwyr cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac ef sy'n arolygu gwaith cyrff llywodraeth leol. Trosglwyddodd Deddf 2004 staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i gyflogaeth Archwilydd

[6] ***Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*** (Saesneg yn unig) (Pennod 23)
[7] Datganiad ysgrifenedig gan Mr Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, ***Pwyllgor Craffu Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru),*** (Saesneg yn unig) 10 Gorffennaf 2003
[8] ***Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*** (Saesneg yn unig) (Pennod 23)

Cyffredinol Cymru i greu un corff archwilio cyhoeddus i Gymru - Swyddfa Archwilio Cymru - o dan arweinyddiaeth yr Archwilydd.

Felly, o **1 Ebrill 2005** ymlaen, roedd yr Archwilydd a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am:

- archwiliadau ariannol a pherfformiad y Cynulliad (fel ag yr oedd o dan Ddeddf 1998);
- y cyrff a noddwyd gan y Cynulliad ar y pryd a'r cyrff a oedd yn gysylltiedig ag ef;
- cyrff y GIG (yn bennaf Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol); a
- chyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

Ar y dyddiad hwnnw, ymddiswyddodd Syr John Bourn fel Archwilydd Cyffredinol Cymru a phenodwyd Jeremy Colman yn ei le.

## *2.3. Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

Ailgyfansoddodd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*[9] ("Deddf 2006") y Cynulliad fel sefydliad anghorfforaethol o 60 Aelod Cynulliad a chreodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (a ailenwyd yn ddiweddarach yn Llywodraeth Cymru) fel endid cyfreithiol ar wahân.

Cafodd y newidiadau a ganlyn eu cyflwyno i'r gyfundrefn archwilio yng Nghymru gan Ddeddf 2006, a ddaeth i rym ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis **Mai 2007**:

- Diddymodd y Ddeddf rôl yr Ysgrifennydd Gwladol o gynghori Ei Mawrhydi ar benodi Archwilydd Cyffredinol Cymru a darparodd bod y penodiad yn cael ei wneud gan y Frenhines yn dilyn enwebiad gan y Cynulliad. Gall y Frenhines ddiswyddo deiliad y swydd ar sail camymddygiad yn amodol ar benderfyniad yn cael ei basio gan o leiaf dwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad.[10]
- Sicrhaodd bod costau cyflog yr Archwilydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (a sefydlwyd gan Ddeddf 2006), yn hytrach na'u bod yn ddibynnol ar gynnig cyllideb blynyddol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad.
- Yn Neddf 2006, parhawyd â'r drefn fod y Cynulliad yn sefydlu Pwyllgor Archwilio (a elwir yn Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bellach). Ceir rhagor o fanylion am swyddogaethau'r Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18.2 y Cynulliad.[11]

---

[9] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Saesneg yn unig) (Pennod 32)
[10] Thomas, A. "Parliamentary Officers in Wales", pennod yn *Parliament's Watchdogs: At the Crossroads* gan Gay, O. a Winetrobe, B., yr Uned Cyfansoddiad/Grŵp Astudio'r Senedd, 2008
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Rheolau Sefydlog***, Gorffennaf 2011

Fel yn achos Deddf 1998, roedd Deddf 2006 yn galluogi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i gyrff datganoledig yng Nghymru, yn amodol ar ymgynghoriad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## *2.4. Datblygiadau yn Swyddfa Archwilio Cymru ers 2007*

Ym mis **Hydref 2009**, roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad yn bwriadu lansio ymchwiliad i drefniadau llywodraethu'r Swyddfa. Fodd bynnag, gohiriwyd yr ymchwiliad hwn yn dilyn penderfyniad yr Archwilydd ar y pryd i gomisiynu **Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol**[12] ei hun. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod sgôp i gryfhau a gwella'r trefniadau llywodraethu a chynigiodd ddau drefniant amgen ar gyfer strwythur bwrdd y Swyddfa. Gwrthododd yr adolygiad y syniad i sefydlu'r Swyddfa yn gorff corfforaethol yn yr un modd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol newydd (gweler paragraff 2.5 ar ddatblygiadau yn Lloegr ers 2005) ar y sail y byddai hynny'n anaddas i Gymru. Nododd fod:

> Creu strwythurau corfforaethol o gwmpas Archwilydd Cyffredinol sy'n gorfforaeth undyn yn esgor ar risgiau. Gallai penodi Cadeirydd annibynnol beri dryswch ynghylch atebolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol fel corfforaeth undyn sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Sefydlwyd y trefniadau newydd yn Lloegr o dan amgylchiadau arbennig ac nid yw'r un ffactorau yn berthnasol yng Nghymru.[13]

Ar **3 Chwefror 2010**, ymddiswyddodd Jeremy Colman, yr Archwilydd ar y pryd, yn annisgwyl a phenodwyd Gillian Body yn ei le dros dro. Ar ôl hynny, daeth i'r amlwg ei fod yn destun ymchwiliad gan yr heddlu am lwytho pornograffi plant ar ei gyfrifiadur gwaith. Yn ddiweddarach, cafodd ei gyhuddo a'i gael yn euog a'i ddedfrydu i gyfnod o wyth mis yn y carchar. [14]

Cafodd Huw Vaughan Thomas ei benodi'n Archwilydd parhaol, a dechreuodd yn y swydd ar **1 Hydref 2010**. Cyn dechrau'r swydd, adolygodd Mr Thomas drefniadau llywodraethu'r Swyddfa gyda'r staff uwch a'r Archwilydd dros dro. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> Ystyriaf fod trefniadau llywodraethu cyfredol Swyddfa Archwilio Cymru yn wallus ac nad ydynt yn darparu'r gwiriadau na'r cydbwysedd angenrheidiol y byddai eu hangen mewn sefydliadau a reolir yn dda yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.
>
> Mae angen gwelliannau ar frys, i wneud Swyddfa Archwilio Cymru yn fwy agored ac atebol. Rhaid ehangu'r gwaith goruchwylio anweithredol annibynnol ar y ffordd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei rhedeg gan gynnwys craffu ar weithgarwch Cydnabyddiaeth, Adnoddau Dynol, Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn ogystal â'r gwaith goruchwylio sydd eisoes ar waith ym maes Archwilio a Rheoli Risg.[15]

---

[12] Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol, 8 Hydref 2009
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ***Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru***, mis Mawrth 2011
[14] BBC News, ***Ex-Wales auditor jailed for child image offences***, 19 Tachwedd 2010
[15] Archwilydd Cyffredinol Cymru, ***Trefniadau llywodraethu newydd arfaethedig ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru - Papur briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus***, 7 Hydref 2010

Roedd y trefniadau newydd a gynigiwyd gan yr Archwilydd yn cynnwys:

- sefydlu tri phwyllgor anweithredol newydd i oruchwylio Adnoddau (Adnoddau Dynol, TG a Chyllid), Taliadau, ac Archwilio a Rheoli Risg.
- bob chwe mis, bydd Cadeiryddion y tri Phwyllgor hyn yn cwrdd â'r Archwilydd Cyffredinol a Phwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu'r hyn y bwriadwyd ei gyflawni, a'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd, yn ystod y cyfnod blaenorol o chwe mis.
- cynnal cynhadledd llywodraethu flynyddol i drafod blaenoriaethau a gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr holl aelodau anweithredol, rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr o'r tu allan i Gymru nad ydynt yn gysylltiedig â'r cyrff a archwilir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol.
- llunio adroddiad llywodraethu blynyddol i'w gyflwyno i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ei ystyried.[16]

Aeth yr Archwilydd newydd ymlaen i ddweud:

> Yn ogystal â'r adolygiadau bob chwe mis, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal Cynhadledd Llywodraethu flynyddol. Bydd holl aelodau anweithredol a Phartneriaid Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol ynghyd â rhanddeiliaid allweddol, ac arbenigwyr o'r tu allan i Gymru/nas cysylltir â chyrff a archwilir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynnal trafodaeth ddeuffordd â sail eang ar flaenoriaethau a gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y dyfodol.
>
> Bydd hyn yn arwain at Adroddiad Llywodraethu a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried.[17]

Daeth pwnc dadleuol arall yn ymwneud â'r Archwilydd a'r Swyddfa i'r amlwg ym mis **Rhagfyr 2010** pan ymddangosodd adroddiadau ynghylch y pecyn diswyddo y cytunwyd arno rhwng Mr Colman ac Anthony Snow, y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd.[18] Mewn ymateb i hynny, penderfynodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad gynnal ymchwiliad i'r mater ac yn benodol i "ymchwilio i'r modd y cytunwyd ar y pecyn diswyddo ac i ba raddau yr oedd ei natur a'i gost wedi'i adlewyrchu'n eglur a chywir yng nghyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'r safonau adrodd ariannol perthnasol".[19]

Esboniodd **adroddiad** y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis **Mawrth 2011** y sefyllfa bresennol o ran rheoli'r broses archwilio yng Nghymru a'r achos dros newid:

---

[16] Swyddfa Archwilio Cymru, ***Archwilydd Cyffredinol newydd i 'chwyldroi' dull llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru***, Datganiad i'r Wasg, 8 Hydref 2010
[17] Op cit. ACC 7 Hydref 2010
[18] Gweler BBC News, ***Ex-auditor Jeremy Colman's £750 pay-off 'secret'***, 8 Rhagfyr 2010
[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ***Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru***, mis Mawrth 2011

> O dan y Ddeddf, mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn "gorfforaeth un person". Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff ond nid yw'n gorff corfforaethol ac yn wahanol i gorff iechyd, dyweder, neu gorff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad nid oes ganddo fwrdd penodedig. Yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r holl swyddogaethau wedi'u rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am lywodraethu ei swyddfa.
>
> Mae'r trefniant hwn yn cadarnhau'r ffaith hysbys bod dyfarniadau archwilio'n cael eu gwneud yn well gan unigolyn na chan fwrdd ac mai'r unigolyn hwnnw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylai aseiniad archwilio unigol gael ei ariannu a'u weithredu. Mae cyrff eraill fel yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷ n wedi'u sefydlu yn yr un modd fel corfforaethau un person am resymau tebyg.
>
> Rydym yn cytuno'n llwyr na ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gael ei lyffetheirio wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol fel y bydd dyfarniadau archwilio yn annibynnol a gwrthrychol ac yn cael eu gweld fel dyfarniadau o'r fath. Fodd bynnag, mae digwyddiadau diweddar wedi dangos bod camddefnyddio'r swydd honno'n gallu arwain at ganlyniadau trychinebus. Rydym wedi dod i'r casgliad felly bod angen cryfhau trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'i hatebolrwydd i'r Cynulliad.[20]

Hefyd, awgrymodd yr adroddiad y dylai'r materion a ganlyn gael eu hystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y dyfodol:

- pennu'r trefniadau ar gyfer taliadau a thymor swydd yr Archwilydd ar sail statudol; a
- sefydlu Bwrdd Cynghori Annibynnol i oruchwylio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Yn hanfodol, byddai'r Bwrdd yn cael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol ac, felly, byddai'n atebol iddo.[21]

## *2.5. Datblygiadau yn Lloegr ers 2007*

Mae datblygiadau mewn perthynas â'r gyfundrefn archwilio yng Nghymru wedi digwydd ochr yn ochr â'r datblygiadau o bwys a ganlyn yn Lloegr.

Ym mis **Tachwedd 2007**, penderfynodd Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r arfer gorau. Gwnaethpwyd hyn yn sgil y ddadl ynghylch treuliau teithio Syr John Bourn, y cyn-Archwilydd a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar y pryd, a arweiniodd at ei gyhoeddiad ei fod yn ymddeol ym mis **Hydref 2007**.[22] Rhoddwyd y cyfrifoldeb dros gynnal adolygiad y Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus i John Tiner, a chyhoeddwyd adroddiad yn seiliedig ar ei gasgliadau ("Adroddiad Tiner") ym mis **Ionawr 2008**. Nododd yr adroddiad:

---

[20] Ibid

[21] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ***Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru***, mis Mawrth 2011

[22] Daily Telegraph, ***How unsackable Sir John Bourn sealed his fate,*** 29 Hydref 2007

> The current C&AG has put in place a number of governance processes, but in their effectiveness these fall short of what is currently best practice, even when taking into account the unique role of the Office. In the exercise of his responsibilities the C&AG must, in my view, rely not only on the powers given to him by Parliament, but also on the moral authority which comes from the National Audit Office (NAO) maintaining the highest standards of governance.[23]

Hefyd, nododd yr adroddiad bwysigrwydd cynnal annibyniaeth y swyddfa wrth sicrhau bod systemau llywodraethu a rheolyddion mewnol yn gyson â'r arfer gorau. O ganlyniad, roedd yr adroddiad yn cynnig newidiadau sylweddol i strwythur llywodraethu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw sylwadau yn yr adroddiad ynghylch a oedd y cynigion yn gymwys i'r gweinyddiaethau datganoledig ai peidio.[24] Cyhoeddodd y Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus ei ymateb i Adroddiad Tiner ym mis **Mawrth 2008**.[25]

Cafodd darpariaethau i roi systemau llywodraethu newydd ar waith mewn perthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yng ngoleuni Adroddiad Tiner a'r Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus eu cynnwys yn y *Mesur Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol*[26]*,* a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar y pryd ar **20 Gorffennaf 2009**.

Yn ystod y broses ddeddfwriaethol ddilynol, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant gyda'r bwriad o roi pwerau deddfu i'r Cynulliad mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. [27] Er y cytunwyd ar y gwelliant, ac er y cafodd y cymal newydd ei ychwanegu i'r Mesur ar ôl y Cyfnod Pwyllgor ar **4 Tachwedd 2009**, cafodd y cymal hwnnw a chymalau archwilio y DU eu dileu'n ddiweddarach yn dilyn trafodaethau i gau pen y mwdwl rhwng y pleidiau cyn diddymu'r Senedd ar **12 Ebrill 2010**.

Fodd bynnag, cafodd y cymalau yn y Mesur ynghylch y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol eu hailgyflwyno gan Lywodraeth y DU ar ôl yr Etholiad Cyffredinol fel rhan o *Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011*[28]a gyflwynwyd ar **21 Hydref 2010.** Roedd y Ddeddf hon hefyd yn diwygio Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Ynghyd â'r bleidlais o blaid rhoi rhagor o bwerau i'r Cynulliad yn y refferendwm ym mis Mawrth 2011, cafodd hyn yr effaith o roi cymhwysedd deddfwriaethol llawn i'r Cynulliad mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

---

[23] Ibid
[24] Ibid
[25] Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, ***Ymateb i Adroddiad Tiner ar Lywodraethu Corfforaethol yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol***, *(Saesneg yn unig) 15fed Adroddiad 2007-8, Mawrth 2008.*
[26] ***Mesur Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2007*** (Saesneg yn unig)
[27] Llywodraeth Cymru, ***Mesur Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol: Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bwerau fframwaith yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*** , (Saesneg yn unig) mis Hydref 2009.
[28] ***Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011*** (Saesneg yn unig) (Pennod 4)

Lansiodd yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ar y *Bil Archwilio Lleol* drafft ar **6 Gorffennaf 2012.** [29] Mae'r Bil drafft yn amlinellu'r fframwaith archwilio newydd arfaethedig ar gyfer cyrff cyhoeddus lleol, y broses ar gyfer penodi archwilwyr a'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer archwilio cyhoeddus lleol yn Lloegr. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **31 Awst 2012**.

## *2.6. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft*

I ddechrau, cafodd y manylion am *Fil Swyddfa Archwilio Cymru* eu cynnwys yn natganiad y Prif Weinidog ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru dros gyfnod o bum mlynedd a gyhoeddwyd ar **12 Gorffennaf 2011**. Mewn perthynas â'r Bil, dywedodd y Prif Weinidog:

> We want a strong public service ethos in Wales, and one that is not prevented from delivering good quality services by unnecessary bureaucracy or governmental control … we will therefore bring forward a draft Wales Audit Office Bill, with the aim of strengthening the Wales Audit Office's governance and accountability arrangements without restricting the Auditor General for Wales's crucial independence to examine whatever subjects he or she chooses. Provisions in the Bill will establish the Wales Audit Office as a body corporate, with the majority of non-executive members appointed by public appointments procedures, including pre-appointment hearings in the Assembly. The Bill will also set out the relationship between the Wales Audit Office and the Auditor General for Wales, who will become the accounting officer for the Wales Audit Office. The Auditor General for Wales, whose terms and conditions of service will be set by the Assembly, on the recommendation of the Public Accounts Committee and independently of the Welsh Government, will become the chief executive officer of the Wales Audit Office.[30]

Yn dilyn hynny, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** ar y ***Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft*** rhwng **15 Mawrth 2012** a **15 Mai 2012**, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol ar **9 Gorffennaf 2012**.

---

[29] Yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, ***Bil Archwilio Lleol Drafft: Ymgynghoriad***, (Saesneg yn unig) 6 Gorffennaf 2012

[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 12 Gorffennaf 2011

# 3. Y Bil

## *3.1. Amcanion polisi*

Prif amcanion polisi'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar 9 Gorffennaf 2012 yw cryfhau a gwella trefniadau atebolrwydd a llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod "Llywodraeth Cymru hefyd yn hynod ymwybodol o'r angen i gynnal a gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd ACC".[31]

Yn ôl y memorandwm, mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol i fynd i'r afael â chyfres o bryderon a fynegwyd mewn perthynas â'r Archwilydd a'r Swyddfa a gododd "yn bennaf o'r modd y cyflawnodd ACC blaenorol rai o'i ddyletswyddau, gan dynnu sylw at ddiffyg atebolrwydd allanol cadarn".[32] Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

- **Materion cyfrifyddu:** Mae'r memorandwm yn nodi y bu "nifer o fethiannau"[33] mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Archwilydd fel Swyddog Cyfrifyddu'r Swyddfa. Roedd y methiannau hyn yn cynnwys peidio â chydymffurfio â'r Model Adrodd Ariannol; gwariant ar setliadau ymddeoliad cynnar; hawliau pensiwn; ac arian arall a gafwyd o'r pwrs cyhoeddus nas cyfrifwyd yn llawn.
- **Materion priodoldeb:** Amlinellodd adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd presennol ym mis Chwefror 2011 fod Archwilydd blaenorol wedi cuddio gwybodaeth yn fwriadol oddi wrth Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg y Swyddfa a staff uwch yr Archwilydd. Mae'r wybodaeth hon yn ychwanegol i'r manylion a gafwyd mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad a ddaeth i'r casgliad bod Archwilydd blaenorol wedi camarwain y Cynulliad a bod y camau a gymerwyd ganddo yn gyfystyr â chamymddwyn.
- **Strwythurau llywodraethu:** Ar hyn o bryd, nid oes gan bwyllgorau cynghorol yr Archwilydd (archwilio a rheoli risg, adnoddau a thaliadau) sylfaen gyfreithiol ac mae penodiadau i'r pwyllgorau hyn yn nwylo'r Archwilydd yn gyfan gwbl, heb fod unrhyw fath o broses benodi wrthrychol, annibynnol ac allanol ar waith. Yn ôl y memorandwm, nid yw'r sefyllfa hon "yn gyson â'r arferion gorau cydnabyddedig". [34]

Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r memorandwm yn datgan bod y Bil yn ceisio lleihau'n sylweddol y posibilrwydd y bydd anawsterau tebyg yn codi eto a rhoi rhagor o sicrwydd i'r Cynulliad a'r cyhoedd ynghylch atebolrwydd yr Archwilydd a'r Swyddfa.

---

[31] Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Esboniadol: Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, Gorffennaf 2012, paragraff 20
[32] Ibid, paragraff 11
[33] Ibid, paragraff 15
[34] Ibid, paragraff 18

### *3.2. Darpariaethau*

Er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a amlinellwyd uchod, mae'r Bil yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn mewn tair Rhan:

Mae **Rhan 1** (Adrannau 2 i 12) o'r Bil yn ymwneud â swydd yr Archwilydd a'i brif swyddogaethau. Mae'n darparu bod y swydd yn parhau fel "corfforaeth un person" a bod yr Archwilydd yn cael ei benodi gan y Frenhines ar argymhelliad y Cynulliad, sef y sefyllfa ar hyn o bryd.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth a fydd yn sefydlu trefniadau ar gyfer penodi i'r swydd honno, terfynu cyflogaeth y person yn y swydd a chyfnod y swydd. Yn benodol, mae'r Bil yn datgan y gall Archwilydd fod yn y swydd am wyth mlynedd ar y mwyaf ac mai dim ond unwaith y gall un person fod yn y swydd.

Mae'r rhan hon hefyd yn diogelu'n benodol annibynniaeth yr Archwilydd ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad drwy roi rhyddid llwyr iddo mewn perthynas â sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mae'r rhan hon hefyd yn darparu mai'r Archwilydd fydd archwilydd statudol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn hytrach na'i fod yn penodi archwilwyr llywodraeth leol.

Mae **Rhan 2** (Adrannau 13 i 28) yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol sy'n cynnwys saith aelod, ac felly mae'n gwahanu ei chyfrifoldebau'n ffurfiol oddi wrth cyfrifoldebau'r Archwilydd. Bydd pump o aelodau'r Swyddfa yn cael eu penodi gan y Cynulliad ar sail eu rhinweddau mewn cystadleuaeth agored a theg, tra bydd y ddwy swydd arall ar y bwrdd yn cael eu gwneud gan yr Archwilydd (a fydd hefyd yn brif swyddog gweithredu i'r Swyddfa) ac aelod arall o blith cyflogeion y Swyddfa a fydd yn cael ei argymell gan yr Archwilydd.

Mae'r Bil yn nodi y bydd y Swyddfa yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau corfforaethol sydd ar hyn o bryd yn nwylo'r Archwilydd, gyda'r bwriad o sicrhau na fyddai pwerau o'r fath yn parhau i fod yn nwylo un unigolyn yn unig. Yn benodol, mae'r Bil yn rhoi'r cyfrifoldebau a ganlyn i Swyddfa Archwilio Cymru ar ei newydd wedd:

- monitro Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhoi cyngor iddo;
- cyflogi staff Swyddfa Archwilio Cymru;
- sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu; a
- dal eiddo er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn paratoi amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant y mae'n rhaid ei osod gerbron y Cynulliad a'i gynnwys yng nghynnig cyllideb blynyddol y Cynulliad.

Hefyd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y Swyddfa, ynghyd â'r Archwilydd, yn cynhyrchu cynllun blynyddol y byddant ill dau yn gorfod ei ystyried a fydd yn amlinellu rhaglenni gwaith y mae'r Swyddfa a'r Archwilydd yn bwriadu eu dilyn, eu costau a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd i ddod. Wedyn, disgwylir i'r Swyddfa a'r Archwilydd adrodd yn ôl i'r Cynulliad ddwywaith y flwyddyn ar sail dros dro ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Archwilydd a'r Swyddfa yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cynulliad.

Mae **Rhan 3** (Adrannau 29 i 37) yn cynnwys darpariaethau cyffredinol a chanlyniadol mewn perthynas â swyddogaethau'r Cynulliad sy'n ei alluogi i wneud darpariaethau ar sail y Rheolau Sefydlog ar gyfer y swyddogaethau a roddwyd iddo yn y Bil mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhan hon hefyd yn amlinellu darpariaethau cychwyn y Bil a gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth.

## *3.3. Gwahaniaethau rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd a'r Bil drafft*

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd wedi cael ei newid yn sylweddol o'i gymharu â fersiwn ddrafft y Bil yr ymgynghorwyd arni gan Lywodraeth Cymru rhwng 15 Mawrth a 15 Mai 2012. Cafwyd cyfanswm o 31 ymateb i'r ymgynghoriad ac mae dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd wedi'i gynnwys ym Mhennod 4 y Memorandwm Esboniadol.

Mae'r prif newidiadau a wnaethpwyd i'r Bil fel y'i cyflwynwyd wedi'u crynhoi isod:

- Mae darpariaethau a fyddai wedi ailsefydlu deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ynghylch archwilio cyrff llywodraeth leol wedi'u dileu, ac eithrio'r darpariaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn Adran 11 o'r Bil sy'n penodi'r Archwilydd fel archwilydd statudol cyrff llywodraeth leol yn hytrach na bod gofyn i'r Archwilydd benodi unigolion neu gwmnïau eraill.
- Mae darpariaethau a fyddai wedi diweddaru neu gadarnhau darpariaethau archwilio a chyfrifyddu sydd eisoes yn bodoli wedi'u tynnu o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.
- Roedd y Bil drafft yn cynnwys darpariaeth yn nodi y dylai Archwilwyr yn y dyfodol fod yn y swydd am gyfnod o saith mlynedd na ellir ei ailadrodd. Mae'r cyfnod hwn bellach wedi ei newid i gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei ailadrodd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.
- Roedd y Bil drafft yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fyddai wedi rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad o ran goruchwylio'r Swyddfa a'r Archwilydd a chraffu arnynt. Yn dilyn pryderon o fynegwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, bydd y Bil fel y'i cyflwynwyd bellach yn rhoi

swyddogaethau goruchwylio'r Archwilydd i'r Cynulliad cyfan, yn hytrach nag i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn unig, fel y nodwyd yn y Bil drafft. Bydd y Cynulliad yn cael y pŵer i benderfynu (drwy Reolau Sefydlog) sut y bydd ei swyddogaethau goruchwylio'r Swyddfa a'r Archwilydd yn cael eu cyflawni.

## 4. Goblygiadau ariannol

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd yr opsiwn a ffafrir o fewn y Bil yn arwain at gostau trosiannol o tua £20,000 a chostau blynyddol o ychydig dros £150,000. Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cynulliad a fydd yn gyfrifol am y costau hyn, ac fe'u nodir isod:

### *4.1. Costau trosiannol*

- **Hysbysebu swydd Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a swyddi pedwar aelod o'r bwrdd.** £20,000 (cost un-tro). Y Cynulliad sy'n gyfrifol am y gost hon;

### *4.2. Costau blynyddol ar gyfartaledd*

- **Costau rhedeg bwrdd y Swyddfa**: £155,000 y flwyddyn. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol, arian rhodd a lwfansau eraill y Cadeirydd a'r pedwar aelod o Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â chostau'r ysgrifenyddiaeth a chost cymorth technegol. Mae'r memorandwm yn datgan mai'r Swyddfa a fyddai'n gyfrifol am y gost hon, sy'n cyfateb i 0.64% o'i chyllideb gyfredol, sy'n cael ei hariannu drwy gyfuniad o arian o Gronfa Gyfunol Cymru ac incwm o ffioedd.
- **Rôl oruchwylio gryfach i'r Cynulliad:** Bydd angen i'r Cynulliad roi trefniadau priodol ar waith i gyflawni ei rôl gryfach o ran goruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfrifoldeb y Cynulliad yw penderfynu a ddylai hyn gael ei gyflawni gan ddefnyddio pwyllgor sy'n bodoli eisoes, pwyllgor newydd neu gomisiwn newydd. Bydd y costau'n dibynnu ar sut y bydd y Cynulliad yn penderfynu cyflawni hyn.

Mae'n debygol y bydd costau parhaus i'r Cynulliad mewn perthynas â phenodi aelodau'r bwrdd a phenodi rhai newydd os ydynt yn penderfynu gadael neu'n dod at ddiwedd eu cyfnod ar y bwrdd. Mae'n debygol mai tua £5,000 yr aelod fydd y gost hon. Nid yw'n glir a yw'r gost hon wedi'i chynnwys yn y ffigurau uchod, felly gallai ychwanegu tua £5,000 y flwyddyn i'r gost uchod.

### *4.3. Costau cyfredol*

Byddai costau sydd eisoes yn bodoli hefyd yn gysylltiedig â'r Archwilydd, sydd â chyllideb flynyddol o £24.2 miliwn ar hyn o bryd. Mae'r memorandwm yn darparu'r dadansoddiad a ganlyn o'r costau hyn mewn perthynas â meysydd sy'n cael eu cynnwys yn y Bil.

- **Cost a llywodraethu mewnol:** £36,650 y flwyddyn fel yn 2010-11;
- **Archwilio allanol:** £25,000 y flwyddyn fel yn 2010-11;
- **Sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:** cost un cyfarfod (yn dod o gyllideb Comisiwn y Cynulliad).

Mae’r memorandwm hefyd yn datgan y bydd y Bil, unwaith y daw i rym, yn cael ei roi ar waith gan y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau.

## 5. Ymatebion

Gwnaethpwyd datganiad deddfwriaethol ar y Bil gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2012. Wrth gyflwyno'r Bil, nododd yr hyn a ganlyn:

> ... mae'r Bil yn mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â materion cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb, yn ymateb i argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, yn gwella arferion goruchwylio'r archwilydd cyffredinol, ac yn lleihau yn sylweddol y tebygolrwydd y bydd anawsterau'r gorffennol yn codi eto, yn sylweddol, ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Cynulliad a'r cyhoedd. Mae archwilio arian cyhoeddus yn swyddogaeth hanfodol, a rhaid i'r rhai sy'n cael eu harchwilio, cyd-Aelodau yn y Senedd a'r cyhoedd, yn anad neb, fod â hyder yn y swyddogaeth. Bydd y Bil hwn yn cynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni hynny. [35]

Hefyd, esboniodd y Gweinidog pam mae'r darpariaethau i gadarnhau, symleiddio ac addasu deddfwriaeth archwilio sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil drafft i ddechrau wedi'u hepgor cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol:

> ... mae ein cynigion yn codi nifer o faterion cymhwysedd y mae'n rhaid eu datrys gyda Swyddfa Cymru ac adrannau eraill o Lywodraeth y DU. Ein prif nod erioed fu mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a goruchwyliaeth, ac er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth gyflawni'r nod hwn, ailstrwythurwyd rhywfaint ar y Bil er mwyn canolbwyntio ar y materion hynny'n bennaf. Byddwn yn ystyried y cydgrynhoi sylweddol, y prosesau symleiddio a'r darpariaethau eto, unwaith y caiff y Bil ei ystyried yn llawn gan y Cynulliad. [36]

Mewn ymateb i ddatganiad y Gweinidog, croesawodd Darren Millar AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Bil a gwnaeth y sylwadau a ganlyn mewn perthynas ag ystyriaeth y Pwyllgor o'r Bil yng Nghyfnod 1:

> Y darpariaethau allweddol yn y Bil yw'r adrannau sy'n ymdrin ag ail-gyfansoddi Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol. Bydd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn arbennig, ddiddordeb mewn clywed sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol, ac mewn clywed barn y rhai sydd am roi tystiolaeth... Bydd gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed sut y penodir bwrdd y Swyddfa Archwilio Cymru newydd, a sut y dewisir ei aelodau... Bydd y pwyllgor yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith ar y Bil hwn yn ystod tymor yr hydref... Gobeithiwn gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Tachwedd. [37]

Hefyd, gofynnodd Mr Millar i'r Gweinidog egluro pryd y bydd y Llywodraeth yn dychwelyd at y materion cadarnhau a symleiddio a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil drafft:

---

[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 10 Gorffennaf 2012
[36] Ibid
[37] Ibid

> Weinidog, a allwch roi syniad inni heddiw o'r amserlen ar gyfer pryd rydych yn disgwyl datrys y materion cymhwysedd mewn perthynas â Llywodraeth y DU y cyfeiriasoch atynt yn eich datganiad?[38]

Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

> O ran y penderfyniadau a wnaethom, mae'n bwysig edrych ar y materion cymhwysedd. Rwyf yn parchu rôl Swyddfa Cymru yn hynny o beth, ynghyd ag adrannau eraill Llywodraeth y DU. Fel y dywedais yn fy natganiad, mae angen inni ddychwelyd at y darpariaethau atgyfnerthu a symleiddio sylweddol hynny. Mae angen inni symud y Bil yn ei flaen, ond bydd y gwaith yn parhau o ran dychwelyd at y Cynulliad ynghylch y materion hyn. Mae rhai materion y mae angen inni eu trafod ac rwyf yn siŵr y bydd y cyfrifoldebau hynny o ran cymhwysedd yn codi yn ystod y broses graffu. Rwyf yn glir ynghylch y meysydd lle rydym yn awr yn hyderus o ran y cymhwysedd sydd gennym ac yr ydym yn gyfrifol amdano.[39]

Croesawodd Aled Roberts AC y Bil ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ond cododd faterion hefyd ynghylch y darpariaethau hynny a hepgorwyd o'r Bil am resymau'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol:

> Mae hwn, wrth gwrs, yn Fil llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Deallaf y pwyntiau a wnewch o ran cymhwysedd mewn perthynas â Llywodraeth y DU a'r safbwynt a gymerwyd gan Swyddfa Cymru. A allwch gadarnhau a yw'r trafodaethau mewn perthynas â'r adrannau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil hwn eisoes ar y gweill? A allwch, ar hyn o bryd, roi unrhyw arwydd ynghylch pryd y mae'n debygol y gallwch ddychwelyd gyda'r Bil pellach y cyfeirir ato yn y papurau briffio, o ran yr adrannau hynny na fu'n bosibl ymhelaethu arnynt yn y Bil hwn?[40]

Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

> Mae angen trafodaethau manwl i benderfynu i ba raddau y mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i ddarpariaethau gael eu haddasu. Mae darpariaethau hefyd sy'n addasu, er enghraifft, swyddogaethau Gweinidog y Goron a'r Trysorlys, a gwelliannau i'r Bil drafft mewn perthynas â chyrhaeddiad ledled y DU a chymhwyso'r ddeddfwriaeth, o gofio mai dim ond newid cyfraith Cymru a Lloegr y gall Deddfau'r Cynulliad ei wneud yn dechnegol. Felly, mae angen trafodaeth bellach ar y materion hyn gyda Llywodraeth y DU, a byddaf yn trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chydag adrannau eraill Llywodraeth y DU sut y gallwn ymdrin â'r materion hynny orau.[41]

Croesawodd Mike Hedges AC y Bil hefyd, ond gofynnodd am eglurhad ynghylch y materion a ganlyn:

> Yn gyntaf, a allwch chi gadarnhau y bydd y Bil yn sicrhau na fydd neb na dim yn ymyrryd ag annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol mewn perthynas â materion archwilio? Mae hynny'n bwynt allweddol: ni ddylai unrhyw un allu ymyrryd â'r hyn y mae'r archwilydd cyffredinol yn ei wneud...
>
> Yn ail, gan ddychmygu'r sefyllfa waethaf, beth pe bai'r archwilydd cyffredinol wedi bod yn ei swydd ers wyth mlynedd a bod archwilydd cyffredinol newydd wedi cael ei benodi, ond bod bwlch o dri mis rhwng y dyddiad y mae'r archwilydd cyffredinol presennol yn gorffen a'r

---

[38] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn**, 10 Gorffennaf 2012
[39] Ibid
[40] Ibid
[41] Ibid

dyddiad y gall yr archwilydd cyffredinol newydd ddechrau, ar ôl rhoi rhybudd dyledus i'w awdurdod. A fyddai'n bosibl ymestyn rôl yr archwilydd cyffredinol presennol ar gyfer y cyfnod hwnnw o dri mis, neu a fyddai'n rhaid penodi archwilydd cyffredinol annibynnol am y tri mis hynny, cyn i'r archwilydd cyffredinol newydd ymgymryd â'r swydd?[42]

Dywedodd y Gweinidog:

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y mater o gynnal annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol. Bydd rhaglen waith yr archwilydd cyffredinol yn cael ei phennu gan yr archwilydd cyffredinol, ac mae'n rhaid iddo anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac mewn modd cost-effeithiol... Os edrychwch ar adran 26, mae wedi'i gynllunio i sicrhau mai Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n pennu ei raglen waith ei hun er mwyn cynnal annibyniaeth y swydd, a'r archwilydd cyffredinol sy'n pennu uchafswm yr adnoddau fydd eu hangen ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae'r adran honno yn hanfodol i gynnal cydbwysedd priodol rhwng sefydlu llywodraethiant briodol ar y naill law a threfniadau goruchwylio ar y llaw arall, gan gynnal yr egwyddor o annibyniaeth archwiliad yr archwilydd cyffredinol.

Rwyf yn siŵr y bydd y pwyllgor am edrych ar y mater hwnnw o ran a oes angen newid neu ddiwygio'r trosglwyddiad, a'r tri mis yr ydych yn ei awgrymu rhwng un penodiad a'r nesaf. Mae angen inni edrych ar ymdrin â hynny o ran trosglwyddo, er mwyn sicrhau bod uniondeb y swydd yn cael ei gynnal.[43]

Wrth siarad ar ran Plaid Cymru, gofynnodd Lindsay Whittle AC gyfres o gwestiynau i'r Gweinidog ynghylch swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol fel y'u hamlinellir yn y Bil.

Fy nghwestiwn cyntaf yw hyn: caiff y cynllun blynyddol ei osod gerbron y Cynulliad, sydd â dyletswydd i'w gyhoeddi, ond a fydd gan y Cynulliad unrhyw bwerau i argymell unrhyw newidiadau i'r cynllun? Yn ail, rydych yn sôn mai'r archwilydd cyffredinol fydd yn penderfynu ar uchafswm yr adnoddau fydd eu hangen i wneud y gwaith, ond mai Swyddfa Archwilio Cymru sydd â'r gair olaf. Beth sy'n digwydd os oes gwrthdaro yn hyn o beth a phwy fyddai'n datrys hynny? Yn drydydd, sut y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrif am ba mor gost-effeithiol yw gwaith yr archwilydd cyffredinol, ac a fydd hynny'n cael ei wneud yn flynyddol?[44]

Ymatebodd y Gweinidog drwy wneud y sylwadau a ganlyn:

Rwyf wedi ymateb i Mike Hedges ar y mater o annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol a'r gallu i gael yr hyblygrwydd hwnnw mewn perthynas â rhaglen waith flynyddol yn arbennig. Fodd bynnag, o ran yr adnoddau sydd eu hangen, rhaid inni gydnabod y bydd amcangyfrif ariannol o gost y cynllun blynyddol. Bydd cyllideb ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, felly mae'n bwysig bod y cynllun blynyddol yn dangos sut y dyrennir y gyllideb honno rhwng y ddau, a sicrhau bod cydbwysedd rhwng y ddau gorff—y mae un ohonynt yn gyfrifol am gymryd trosolwg o'r archwilydd cyffredinol a'i oruchwylio—yn y broses heb effeithio ar ddisgresiwn Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft, i gwestiynu neu wrthod datganiad yr archwilydd cyffredinol ar ei raglen waith. Mae'r rhain yn faterion a manylion yr wyf yn siŵr y byddwch yn eu harchwilio ystod gwaith craffu Cyfnod 1.[45]

---

[42] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn**, 10 Gorffennaf 2012
[43] Ibid
[44] Ibid
[45] Ibid